

5007: Dewiswch ymyrraeth sydd yn cefnogi dysgu a datblygiad disgybl/grŵp o ddisgyblion. Adfyfiriwch yn feirniadol ar ei botensial i sicrhau cynnydd disgyblion a'r heriau posib all ymddangos.

Bydd yr aseiniad hwn yn trafod ymyriadau mewn ystafell ddosbarth lle bydd bachgen ifanc yn brif ffocws, esboniad o pam y dewiswyd yr ymyrraeth hwn ac yn ystyried nifer o elfennau ar sut y gallwn helpu datblygiad y plentyn hwn yn gymdeithasol, emosiynol ac academiaidd. Enw'r plentyn yw Jac ac mae ym mlwyddyn pedwar a naw oed, bydd enw ffug yn cael ei ddefnyddio drwy gydol yr aseiniad gan ddilyn rheolau BERA, mae'n bwysig cofio na ellir dangos pob enw ar-lein am nifer o resymau a ffug gellir defnyddio enwau (BERA, 2018). Felly i gychwyn mae Jac gyda chwaer fach yn yr ysgol hefyd ac yn buddio o ymyrraethau pellach lawr yn yr ysgol hefyd. Mae'r bachgen yma ar gam gynnydd un ar gyfer iaith lle mae anhawster ffonetig a gwahaniaethu seiniau gwahanol, felly bydd ymyrraeth ELSA hefyd yn hybu iaith a chyfathrebu o safbwynt iaith emosiynol. Mae'r plentyn yma hefyd newydd golli ei dad, ac felly mae prif rheswm a roedd cymorth ELSA yn fwyaf addas am helpu y bachgen yma trwy esbonio a gallu i rheoli emosiynau. Prif darged y plentyn hwn ar hyn o bryd yw gallu rheoli ei emosiynau a dysgu delio â'r emosiynau hyn orau tra'n ei gadw'n gyfforddus, gan sicrhau nad oes pwysau ar y plentyn i siarad na rhuthro i mewn i'w emosiynau. Mae'r bachgen yma yn hoffi chwarae gyda'i ffrindiau ac yn llwyddiannus yn cymryd rhan mewn nifer o chwaraeon tu fewn a thu fas o'r ysgol.

Ni siaredir digon am seibiant gyda phlant yn enwedig plant iau Mae staff cymorth ELSA wedi'u hyfforddi'n benodol i gefnogi'r plant hyn yn ddiogel ac yn broffesiynol wrth ddysgu sut i reoli a delio â'u hemosiynau. Wrth ddarllen o wefan elusen MIND mae'n esbonio y gall galar deimlo'n wahanol i bawb lle gall nifer o ffactorau effeithio ar y ffordd y mae pobl yn delio â cholled, ac mae'n iawn peidio â theimlo pob emosiwn y gall rhywun arall ei deimlo gan nad oes "anghywir" ffordd i ddelio ag ef (MIND, 2023). Hefyd mae yna elusenau ar gael ar lein gyda argrymiadau o dulliau wahanol a allwch ddefnyddio adref er mwyn gallu helpu y plentyn neu'r rhieni yn bersonol, er enghraifft Marie Curie sydd gyda awgrymiadau o fel efallai bydd plentyn yn ymateb i gydfynd a profiadau personol teuluoedd arall (Marie Curie website, 2022).

Mae yna nifer o ymyrraethau gallaf wedi trafod yn yr aseiniad hwn er enghraifft tric a chlic, RWI, dyfal donc, thrive ayyb, mae pob un gydag arbenigwyr sydd yn helpu disgyblion cyrraedd gallu gorau nhw. Cafodd ELSA ei greu yn 2001 gyda'r bwriad o helpu ysgolion gyda cefnogi plant gyda phroblemau iechyd meddwl, sydd hefyd yn plethu mewn gyda

deallusrwydd emosiynol a diffinwyd gan Savlovy a Mayer (1990). Hefyd mae gwefannau yn ei le nawr er mwyn i arweinwyr a staff ELSA gallu rhannu syniadau o gweithgareddau a gallwch ddefnyddio os gwelwch yn addas, gwelwch ar cyfryngau cymdeithasol gwelwch er enghraifft grwpiau penodol sydd wedi ei gosod i fyny a allwch dilyn 'ELSA support' sydd yn ddangos trafodaethau a syniadau o trafod emosiynnau gyda plant yn yr ysgol.

Yn y gwricwlwm i Gymru mae'r pedwar diben yn ei lle er mwyn ffurfio dysgwyr uchelgeisiol, galluog, unigolion iach, hyderus, gyfranwyr mentrus, creadigol ac yn ddinasyddion, gwybodus, felly mae pob elfen uchod yn gosod camau er mwyn i pob ddisgybl llwyddo. (Llywodraeth Cymru, 2022) Mae yna pump egwyddor cynnydd ar draws y meysydd dysgu gwahanol, sydd yn annog datblygiad ar gyfer pob disgybl, wrth ysgolion mynd ati i cynllunio cwricwlwm ar gyfer eu hysgolion mae cynydd yn dysgu yn cael ei weld fel proses o ddatblygu a gwella sgiliau dros amser (Llywodraeth cymru, 2022). Mae cynydd nawr yn ysgolion yn atgyfnerthu cysylltiadau y pedwar diben a sgiliau trawsgwricwlaidd ac yn sicrhau cynydd wrth gynllunio cwricwlwm yn barod am holl brofiadau dysgu sydd yn rhedeg yn ysgolion (llywodraeth cymru, 2022) Yn adroddiad Estyn ar ol COVID 19 mae un o bwriadau o fewn ysgolion yw i pwysleisio fod plant yn gallu fod yn fwy hydwyth ac felly hefyd yn helpu gyda annibynniaeth y ddisgyblion hefyd. Yn ysgolion nawr mae'r pwyslais hefyd wedi codi ar iechyd a lles gan sicrhau fod disgyblion yn barod i wynebu problemau sydd yn codi yn yr ysgol ac yn y cartref. (Estyn, 2020). Gan hefyd ystyried damcaniaeth Vygotsky lle mae datblygiad gwybyddol plentyn yn gael ei hystyried, lle mae'r proses o ddatblygu yn buddio o bobl sydd yn o gwmpas y plentyn, er enghraifft rhieni, yr ysgol neu'r gymuned (McLeod, 2024).

Penderfynais yr ymyrraeth fwyaf addas ar gyfer y plentyn hwn yw ELSA, mae ELSA yn helpu plant gyda nifer o bethau gwahanol sydd yn digwydd dros gyfnod byr. Mae ELSA yn sefyll amdano 'emotional literacy support assistant', ac felly mae cynorthwyr yn cael hyfforddiant addas er mwyn gallu gyflawni ei rôl ELSA, ac yn cydweithio'n agos gyda seicolegwyr addysg and mae'r bwriad i bob plentyn llwyddo yn gymdeithasol, emosiynol ac yn addysgeg. (Debbie) Mae ELSA hefyd yn ystyried theori Burner o meddwl am y dysgwyr ar ffordd fwyaf addas iddyn nhw dysgu (Main 2023), felly mae derbyn ELSA dros cyfnod o amser yn atgyfnerthu sgiliau sydd yn ymwneud gyda defnyddio'r meddwl. Mae ELSA yn rôl fewnol o fewn yr ysgol gan gynorthwyydd ar ôl iddynt gyflawni chwe diwrnod o hyfforddiant am £700, sydd yn cynnwys gwahanol elfennau (Psychology First, 2023). Mae'r sesiynau yma yn cael ei gynnal yn y cwtsh yn yr ysgol lle mae gwagle diogel a dawel er mwyn i'r plentyn teimlo yn gyfforddus. Hoffwn sicrhau'r gofal gorau ar gyfer y plentyn yma a bydd y cynorthwyydd sydd yn gweithio gyda Jac yn rhywun sydd yn gyfarwydd â'r plentyn gyda

pherthynas proffesiynol ac agos.. Pwysigrwydd o wneud yn siŵr fod y plentyn yn gallu siarad pan rydyn nhw'n barod ac yn sicrhau bod nhw'n gwybod beth bynnag mha nhw'n rhannu yn cael ei gofnodi a byth addo i'r plentyn bod beth maen nhw'n rhannu yn cael ei gadw fel cyfrinach.

Nid yw siarad am sut rydym yn deimlo yn dod yn hawdd i rhanfwyaf o pobl a felly mae ELSA yn digwydd i fyny at 8 wythnos fel bod yr ELSA a'r disgybl yn gallu greu perthynas agos fel bod fwy o gyfle i siarad yn gallu digwydd, fel dwedais uchod fel arfer mae'r sesiynau yma yn gael ei gynnal yn y cwtsh yr ysgol ond os yw'r disgybl eisiau neud sesiynau tu fas mae hyn hefyd yn iawn. Mae greu awyrgylch cyfforddus iddyn nhw yn y peth fwyaf pwysig, er mwyn iddynt nhw i deimlo fel bod y sesiynau yn mynd i fod o werth iddyn nhw.

Mae rhoi ELSA i blentyn fel Jac yn mynd i helpu gyda rheoli emosiynau a datblygu iaith Cymraeg yn y broses, bydd gweithgareddau wedi gosod fyny yn barod am y sesiynau 45 munud yn annibynnol. Ar ol cwpwl wythnosau o Jac ar ELSA'r ysgol gweithio'n agos gyda'i gilydd mae gobaith o symud i sesiynau grwp er mwyn datblygu'n pellach to. Mae'r grŵp ar gyfer sesiynau Jac yn mynd i fod o fewn grwpiau o 5 plant cymysg o fechgyn a merched, sydd yn mynd i fod yn gyfle i gymysgu gyda phlant gwahanol ond gyda phlant sydd wedi bod yn sefyllfaoedd tebyg ond o ran gallu gwahanol er mwyn safon iaith fod yn wahanol, uchel ac isel.

Mae sesiynau ELSA am fod yn gyfle i Jac fel disgybl magu hyder mewn ffyrdd wahanol a meddylfryd fwy positif, mae delio gyda newid mawr yn fywyd yn anodd i unrhywun ond yn fwy anodd i plant sydd ddim gyda lot o brofiad yn colli aelod o deulu. Wrth i'r plentyn mynychu y sesiynau yma mae cyswllt yn fynd ei gael ei gadw gyda'r fam a fydd cofnod o'r datblygiad a newidiadau sydd yn ei ddangos dros y chwech i with wythnos o sesiynau. Mae gweithgareddau yn y sesiynau sydd yn mynd i helpu'r plentyn yma fod yn fwy annibynnol yn academiaidd ac yn gymdeithasol yn yr ysgol, mae'r gweithgareddau yma yn mynd i hefyd helpu o rhan iaith gan cadw yn gyswllt gyda'r athrawes dosbarth o ba gamau mae Jack yn o fewn y ystafell dosbarth. Enghraifft o sesiwn all gael ei gynnal i Jac fel ei tro gyntaf yn mynd i sesiwn ELSA gallwch cynwys ffrind, fel bod Jac yn cyfforddus ac yn gallu ymdopi gyda newid o fewn yr ysgol gan ystyried y newidadau sydd yn digydd tu fas yr ysgol iddo. Cyfle i Jac ac ei ffrind trafod trwy ddefnyddio cwib lle gall fe a ffrind taflu nol ac ymlaen ac ar pob ochr y cwib mae yna emosiwn gwahanol a gall y ddau trafod amser lle roedden wedi teimlo yr emosiwn yma. Nid oes rhaid rhoi ateb ond cyfle i'r ddau neu tri o friendau dechrau trafod emosiynau gwahanol, hefyd yn ddangos fod yn iawn i drafod fel mae'n nhw'n teimlo. Gan cyflwyno hyn gan ddefnyddio symudiad 'pêl' mae'n cymryd y sylw bant o'r trafodaeth ac yn neud yn hwyl. Mae'r gêm yma hefyd yn gallu agor y drws i gwestiynau efallai bydd Jac neu ei ffrindiau yn gael am emosiynau wahanol. Hefyd I ystyried plant ifancach na Jac gallwn

hefyd ddefnyddio lluniau neu emojis yn y gem yma, neu defnyddio'r animeiddiadau o'r ffilm newydd 'inside out' sydd yn ystyried ein teimladau, gall wedyn ymestyn pellach trwy tynnu llun o anemeiddad ei hun acyyb dros cyfnod o amser yn ei sesiynnau ELSA.

Yn ogystal a magu hyder bydd y cyfle i dod i adnabod sut i ymdopi gyda eich teimladau yn fy marn i sgil hanfodol sydd angen er mwyn i blant deall y byd a fel mae'n gweithio. Bydd llyfrau sydd yn berthnasol i'r sefyllfa Jac i helpu fe deall nad yw'n ar ben ei hun. Mae diwrnod cyfan yn ystod hyfforddiant yn seiliedig ar marwolaeth a colled a felly bydd hyn yn sicrhau fod disgyblion fel Jac yn gael yr help addas sydd yn ei angen, nad yw plentyn fel Jac yn siarad yn aml o fel maent yn deimlo ac yn fel arfer yn gael ei rhwystredigaethau mas ar y cae rygbi neu pel droed gyda'i ffrindau. Mae'r sgiliau yma yn sgiliau bydd yn aros gyda Jack am oes ac yn wastod yn gallu ddefnyddio os oes angen, mae un strategaeth fydd yn gael ei ddefnyddio fel rhan o sesiwn cyntaf Jac yn ddefnyddio llyfr 'Bottled' llyfr saesneg sydd yn trafod emosiynnau a beth sydd yn digwydd os rydym ni yn orlenwi ein poteli, ffordd o gynnal sgwrs a weld o bersbectif y plentyn, cafodd ei ysgrifennu gan Tom a Jo Brassington, athawron, sydd yn angerddol o iechyd meddwl. Bydd hefyd angen ystyried os nad yw Jac eisiau siarad yn sesiynnau gyntaf a felly os bydd angen fwy o sesiynnau er mwyn sicrhau fod yn cyfforddus mae arweinwyr lles hefyd yn hapus i hyn ei ddigwydd. Cafodd astudiaeth i wneud gan Grahamslaw yn 2010 ac yn ddangos fod plant sydd wedi gael sesiynnau ELSA yn uwch yn ei hunain effeitholrwydd na plant oedd nad oedd wedi gael y gymorth ac felly wrth cynnal y sesiynnau yma i blentyn 9 mlwydd oed mae'r gobaith fod Jac yn mynd i weld siarad am ei broblemau a deimladau yn haws fel bod amser yn mynd ymlaen yn yr ysgol. Mae'r pwyslais ar yr elfen gymdeithasol sydd yn hanfodol o ran datblygiad plentyn sydd hefyd yn mynd nol ac yn gyfeirio i scaffaldio Vygotsky ac yn ystyried y gymuned sydd yn o gwmpas y plentyn (2024), a felly mae sicrhau fod eich plentyn yn hapus i cymryd rhan hefyd yn hafodol. Mae ysgolion gyda polisiau sydd yn sicrhau perthynas gyda'r cymuned lleol a rhieni fel bod cysondeb o fewn yr ysgol o plant yn gwybod am ei cymuned lleol a fel i cadw yn ddiogel a dangos pwy sydd yna i siarad i os oes angen. Gall sesiwn ELSA hefyd gynnwys sesiwn lle mae'n gyfle i drafod y bobl pwysig yn ein bywydau a fel allwn cofio neu fel mae'r berson yma yn wneud y blentyn yn hapus. Gall hyn fod yn effeithiol i Jac wrth creu map meddwl neu map stori o hoff gofiadau o fe a ei tad, gwaithgaredd creadigol sydd yn gallu cael ei ddisgfrïo gyda un gair er mwyn helpu Jac prosesu beth sydd wedi digwydd i ei dad hefyd. Ond os nad yw Jac eisiau tynnu lluniau gan ddefnyddio ei dad mae'n hefyd cyfle i ddangos pwysigrwydd cael ei fam yn ei bywyd a'r pethau maent yn hoffi wneud efo hi.

O fewn ysgolion os byddwn yn weld fod eich plentyn efallai angen sesiynnau ELSA bydd llythyr caniatad yn mynd adref i sicrhau bod y rhiant yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd,

sydd hefyd yn dibynny ar y polisi ysgol ar fel mae'n gael ei ddanfod gall hyn fod trwy ebost gyda ALNCo neu trwy cyfryngau'r ysgol fel dojo, seesaw acyyb, fel dwedais uchod bydd cyswllt cyson gyda'r ysgol a'r rhiant o'r sesiynau a datblygiad y plentyn er mwyn cadw'r rhiant yn ymwybodol. Rydym yn gwybod bod ELSA yn effeithiol yn ysgolion ond rwyf hefyd wedi ystyried y posibilrwydd y gall plant fod yn buddio o'r sylw mae'r sesiynau ELSA yn rhoi i'r unigolyn ac felly yn codi cwestiynau o fel yr ydym yn gallu asesu yr effeitholrwydd.

(Pickering, Lambeth, Woodcock, 2019) Mae pob plentyn yn ymateb i bethau yn wahanol a felly mae'r mwyafrif o athrawon a staff yr ysgol yn cytuno gyda'r cynllun ELSA gan ei fod wedi cynllunio gan seicolegwyr penodol, mae'r ymyrraeth wedi gael ei osod yn yr ysgol penodol yma achos mae fe'n gweithio iddyn nhw. Darllenais hefyd fod anhawsterau diffyg adnoddau ELSA ac felly mae wefan wedi gael ei greu gan fenyw o'r enw Debbie 'ELSA support' lle mae cynorthwyyr a ysgolion yn gallu prynnu pethau addas ar gyfer sesiynau ELSA, ond mae hyn hefyd yn ddangos fod mae ELSA yn gallu fod yn gostus fel ymyrraeth i ysgolion os nad yw'r ysgol yn lwcus o rhan cyllid. Mae llawer o ysgolion ddim gyda'r cyllid addas er mwyn gallu rhoi ymyrraethau addas i'r ddisgyblion sydd yn ei angen y fwyaf. Er bod diffyg adnoddau mae'n hefyd bwysig ystyried dylai ELSA cael amser paratoi yn ystod yr wythnos er mwyn gallu cynnal sesiynau llwyddiannus ac effeithiol, felly ar ol derbyn hyfforddiant ELSA maen pwysig cymryd y holl wybodaeth nol i'r ysgol a rhannu y pwysigrwydd o gael yr amser ymarferol yma.

Ym mersonol credaf fod ymyrraeth ELSA yn effeithiol ar gyfer ddisgyblion yn ysgolion ar ol darllen beth darganfododd Hills mae pwysigrwydd o ddangos i disgyblion beth fyddiwynt yn gael mas o mynd i'r sesiynau a fod nhw yn gallu gweld cynydd nhw hefyd. Gan neud yn siwr fod y plentyn gyda bwriadau glir o beth sydd yn digwydd ar ol i'r sesiynau hyn gorffen bod dal rhywle saff iddyn nhw troi yn yr ysgol (Hills, 2023). Mae ELSA wedi bod yn rhedeg yn ysgolion am 23 mlynedd a felly rydym yn gwybod fod yn effeithiol ar ol siarad i staff sydd yn gyflawni ymyrraeth ELSA mae llawer o paratoi yn mynd mewn i'r sesiynau yma a roedd llawer o staff eisiau fwy o'r aelodau yn yr ysgol gael y hyfforddiant ymyrraeth ELSA am fod cymaint o pwysau ar lles yn ysgolion. Mae pob aelod o staff ELSA rwyf wedi trafod gyda yn ystod fy mrofiad PAP yn cytuno fod gwahaniaeth yn plant ar ol gorffen y wyth wythnos o sesiynau ac mae hefyd camau yn ei le er mwyn gallu gael fwy o help pellach i'r ddisgyblion os oes angen ar ol. Mae'r sesiynau yma yn gael ei tracio gan cymryd nodiadau o bob sesiwn i weld os mae cynydd wedi bod. Gall y nodiadau yma amrywio o gynnwys rhywbeth bach mae'r plentyn wedi agor i fyny am teimlad newydd, neu yn gynnwys y wybodaeth os oedd yn sesiwn unigol neu grwp, neu oedd y plentyn yn deimlo'n isel neu'n uchel y diwrnod hynny. Mae hyn wedyn yn fynd yn allanol ond yn aros yn addas ar gyfer y plentyn penodol. Un o'r rhwystrau fwyaf rwyf wedi deall wrth darllen am ymyrraeth ELSA yw'r rhwystrau

amser a os yw'r amserlen ysgol yn newid am rhyw rheswm a mae'r plentyn yn colli sesiwn gall hyn cael effaith emosiynol ar y plentyn hon hefyd, ond mae gweithwyr ELSA yna i wneud yn siwr bod y plentyn wastod yn gwybod camau nesaf. Roeddwn wedi trafod y rhwystr yma hefyd o brofiad peresonol aelod o staff yn ystod profiad PAP lle ffindodd achos roedd dim ond un aelod o staff gyda hyfforddiant ELSA a roedd gymaint o blant angen y cymorth roedd y trefniadau gallu fod yn ormod i ystyried. Er hynny roedd yr ysgol hon yn y broses o gael aelod arall i derbyn hyfforddiant addas er mwyn sicrhau oedd pob disgybl oedd angen sesiynau ELSA yn derbyn. Mae ymyrraethau dal yn ddatblygu o fewn ysgolion a gwelwn cynydd a ddatblygiad gyson gyda'r plant ar draws yr ysgol. Gyda phwysigrwydd yr ymyriad hwn yn digwydd yn gynnar ym mhroses y plentyn o alar, y gobaith yw y bydd yr effeithiau hirdymor yn para'n hirach o ystyried iechyd meddwl y plentyn, gyda ELSA yn cael ei sefydlu i ddysgu'r emosiynau i'w trafod a gwybod hynny. mae'n iawn teimlo nifer o bethau. Mae iechyd meddwl yn rhywbeth byd-eang a diolch byth mae'n dod yn fwyfwy poblogaidd gyda nifer o elusennau yn dod ymlaen i ledaenu ymwybyddiaeth ac ochr yn ochr â'r dylanwadau ar-lein hynny sy'n lledaenu negeseuon i blant iau a hŷn, gall dylanwadau ar-lein gael eu hystyried yn fwy effeithiol mewn rhai achosion. parhau i ledaenu'r neges gan ei fod yn haws i'r plentyn ei gysylltu â rhywun y mae'n ei eilunaddoli. Mae bob amser yn bwysig cofio ac atgoffa pobl nad ydyn nhw byth ar eu pen eu hunain. Darllenwyd fod yn ymyrraethau yn gallu helpu ansawdd bywyd yn y pendraw a chefnogi y posibilrwydd o iechyd meddwl dda gan ystyried nid yw'n gweithio ar gyfer popeth (EIF,2020).

Cyfeirnod

British Educational Research Association (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018)*. [online] Bera.ac.uk. Available at: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>.

Estyn (2020). *Learner resilience -building resilience in primary schools, secondary schools and pupil referral units*. [online] Available at: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Learner%20resilience%20en.pdf>.

EIF (2020) *Why is it good for children and families?*, Early Intervention Foundation. Available at: <https://www.eif.org.uk/why-it-matters/why-is-it-good-for-children-and-families#:~:text=Early%20intervention%20can%20help%20children,and%20support%20good%20mental%20health>. (Accessed: 19 May 2024).

Grahamslaw, L. (2010) *An evaluation of the Emotional Literacy Support assistant (elsa) project : What is the impact of an Elsa project on support assistants' and children's self-efficacy beliefs*, Newcastle University eTheses: Home. Available at: <https://theses.ncl.ac.uk/jspui/handle/10443/3117> (Accessed: 19 May 2024).

Hills, R. (2016). An evaluation of the emotional literacy support assistant (ELSA) project from the perspectives of primary school children. *Educational and Child Psychology*, 33(4), pp.50–65. doi:<https://doi.org/10.53841/bpsecp.2016.33.4.50>.

Llywodraeth Cymru (2020). *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru The four purposes of the curriculum for Wales*. [online] Available at: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-four-purposes-of-the-curriculum-for-wales.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2022a). *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb*. [online] hwb.gov.wales. Available at: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#cynnydd> [Accessed 8 Apr. 2024].

Llywodraeth Cymru (2022b). *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb*. [online] hwb.gov.wales. Available at: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#cynnydd> [Accessed 8 Apr. 2024].

Main, P (2023, May 03). Jerome Bruner's Theories. Retrieved from <https://www.structural-learning.com/post/jerome-bruners-theories>

Marie Curie Charity (2022) *How grief may affect children: Find out more on grief and children, Marie Curie*. Available at: <https://www.mariecurie.org.uk/help/support/bereaved-family-friends/supporting-grieving-child/grief-affect-child> (Accessed: May 2024).

McLeod, S. (2024) *Vygotsky's sociocultural theory of cognitive development, Simply Psychology*. Available at: <https://www.simplypsychology.org/vygotsky.html> (Accessed: May 2024).

MIND charity (2023) *What does grief feel like?, Mind*. Available at: <https://www.mind.org.uk/information-support/guides-to-support-and-services/bereavement/experiences-of-grief/> (Accessed: May 2024).

Palphreyman, D. (2023). *What is ELSA Intervention?* [online] ELSA Support. Available at: <https://www.elsa-support.co.uk/what-is-elsa-intervention/>.

Psychology First (n.d.). *School Age ELSA Training & Supervision*. [online] Psychology First. Available at: <https://psychologyfirst.co.uk/our-services/elsa-training-and-supervision/#:~:text=The%20ELSA%20training%20provides%20selected>.

www.edplace.com. (n.d.). *ELSA - Emotional Literacy Support Assistant*. [online] Available at: <https://www.edplace.com/blog/send/elsa-emotional-literacy-support-assistant#:~:text=Sometimes%20ELSA%20support%20is%20offered>.